



Cymdeithas Ddysgedig Cymru – Cynllun Strategol 2018-2023

1. Ein diben

Cenhadaeth y Gymdeithas yw hyrwyddo rhagoriaeth ac ysgolheictod, ysbrydoli dysg a gweithredu er budd y genedl.

I gyflawni'r genhadaeth hon, ein prif **nodau** yw:

- dathlu a chydabod rhagoriaeth ym mhob disgyblaeth ysgolheigaidd ac yn ehangach
- hyrwyddo ymchwil ac ymchwilwyr rhagorol, crisialu uchelgais ac ysbrydoli ymchwilwyr, ieuenctid a chymdeithas yn fwy cyffredinol
- hybu datblygiad dysg, ysgolheictod ac addysg, eu lledaenu a'u cymhwyso
- gweithredu fel ffynhonnell annibynnol o gyngor arbenigol a dylanwadu ar y drafodaeth gyhoeddus ar faterion sy'n effeithio ar ymchwil, ysgolheictod, economi, ieithoedd a llesiant Cymru a'i phobl

Mae ein huchelgais ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn seiliedig ar **werthoedd craidd**:

- rhagoriaeth
- amrywiaeth
- annibyniaeth

2. Dysgu a chyflawni 2010-18

Y datblygiadau hyd yn hyn

Dros yr wyth mlynedd ers iddi gael ei lansio, mae'r Gymdeithas Ddysgedig wedi datblygu enw da fel llais annibynnol, awdurdodol yn y maes dinesig yng Nghymru.

Rhan hanfodol o'r sefydliad yw Cymrodyr y Gymdeithas. Mae'r Gymrodoriaeth wedi datblygu'n sylweddol ers sefydlu'r Gymdeithas, gyda thros 450 o Gymrodyr wedi'u hethol i ymuno â'r Cymrodyr Sefydlu. Ers 2014, mae o leiaf draean o'r holl Gymrodyr newydd a etholwyd yn fenywod, ac mae ymdrechion i gynyddu amrywiaeth y Gymrodoriaeth yn parhau.

Mae Cynllun Strategol 2018-2023 yn nodi trydydd cyfnod y Gymdeithas.

Neilltuwyd y pedair blynedd gyntaf i sicrhau bod y sefydliad yn gadarn ac yn addas i'w diben o ran llywodraethu a chylch gorchwyl; roedd cyflwyno statws elusen Siarter Brenhinol yn 2015 yn gydnabyddiaeth o arwyddocâd y sefydliad ifanc a'i statws dibynadwy. Ceir rhagor o fanylion am sefydlu'r Gymdeithas a'i datblygiad cynnar ar y wefan.

Yn ystod yr ail gyfnod gwelwyd ymdrechion i sefydlu safle'r Gymdeithas o fewn bywyd dinesig Cymru – datblygu perthnasoedd adeiladol gyda rhanddeiliaid a sefydlu'r corff fel cyfaill beirniadol i'r llywodraeth. Yn ystod y cyfnod hwn, datblygodd ein dylanwad ar bolisi a daeth llais y Gymdeithas yn fwy amlwg.

Bydd y trydydd cyfnod yn gweld y Gymdeithas yn adeiladu ar ei seiliau cadarn, gan ddatblygu ei safle arbennig fel ffynhonnell awdurdodol ac annibynnol o gyngor gwybodus, ac ehangu cyrhaeddiad ac effaith ei gweithgareddau.



Adborth gan randdeiliaid

Wrth baratoi ar gyfer datblygu'r cynllun hwn, comisiynwyd arolwg o Ganfyddiadau Rhanddeiliaid yn ystod haf 2017. Ymgynghorwyd â Chymrodyr y Gymdeithas a thros 60 o randdeiliaid allanol. Roedd y rhanddeiliaid yn cynrychioli amrywiaeth eang o sefydliadau, ac er mwyn casglu adborth a chanfyddiadau gan gynulleidfa oedd anghyfarwydd yn ogystal â rhai cyfarwydd, cynhwyswyd unigolion i gynrychioli sefydliadau neu feysydd na fyddai'n adnabod y Gymdeithas yn dda, neu a fyddai â chysylltiad bach iawn yn unig â hi.

Gwnaeth nifer o randdeiliaid y pwynt fod y Gymdeithas yn unigryw ymhlith sefydliadau Cymru gan ei bod yn gallu siarad am faterion a chynnull trafodaethau o safbwynt amhleidiol, niwtral, gan ddefnyddio ei hygredd fel corff annibynnol yn seiliedig ar dystiolaeth i ymdrin â materion anodd, tymor hir. Roeddent yn teimlo bod lle yn y cylch cyhoeddus i'r Gymdeithas ffurfio ac arwain trafodaeth.

Disgrifir y materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr (rhanddeiliaid allanol a Chymrodyr) isod.

- ***Rôl, ffocws a naratif y Gymdeithas***

Er bod canfyddiad cryf fod y Gymdeithas wedi'i hadeiladu ar sylfeini cadarn ac yr ystyrid ei bod wedi cael effaith gadarnhaol yn ei hoes fer, roedd ansicrwydd yn parhau ynghylch beth yn union roedd yn ei wneud. Roedd tua hanner y rheini y cyfwelwyd â nhw'n teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth neu ddealltwriaeth o ehangder gwaith y Gymdeithas ac nid oeddent yn teimlo y gallent fynegi ei meysydd gwaith neu flaenoriaethau allweddol. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn awyddus i'r Gymdeithas godi ei phroffil a mynegi neges gryno, gliriach am ei rôl a'i ffocws. Siaradodd nifer am yr angen i'r Gymdeithas "adrodd ei stori" mewn ffordd fwy syml, argyhoeddiadol.

- ***Mynd ymhellach gydag amrywiaeth a chynhwysiad***

Mae'r Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd ar waith yn ymdrin â'r mater hwn, a chaiff argymhellion yr Adolygiad eu gwreiddio yn y strategaeth a'i weithrediad dros y pum mlynedd nesaf.

- ***Bwlch yn y farchnad ar gyfer llais annibynnol, awdurdodol, amhleidiol a berchir***

Cododd rhanddeiliaid a Chymrodyr nifer o faterion a meysydd gwaith penodol ble roeddent yn teimlo y gellid clywed neu chwyddo llais y Gymdeithas. O ran Brexit, roedd barn gref fod y drafodaeth gyfredol yng Nghymru - yn enwedig mewn cylchoedd dysgedig - yn rhy gul. Y farn a fynegwyd yn ystod y prosiect hwn oedd y gallai'r Gymdeithas helpu i ehangu'r drafodaeth hon. Nododd ymatebwyr hefyd yr angen am drafodaethau gwell, mwy gwybodus am faterion tymor hir fydd yn ffurfio dyfodol Cymru. Mae hwn yn gyfle i'r Gymdeithas osod yr agenda, yn hytrach nag ymateb.

- ***Ailddiffinio "dysgedig" a chynyddu cwrpas ac effaith y Gymdeithas***

Er bod rhanddeiliaid yn gyson eu canmoliaeth i ansawdd y gwaith a wneir gan y Gymdeithas a hygredd a statws ei Chymrodyr, awgrymodd llawer y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Gymdeithas yn ystyried mabwysiadu diffiniad ehangach o'r hyn yw bod yn "dysgedig". Awgrymwyd y byddai hyn yn helpu'r Gymdeithas i gynyddu ei heffaith drwy estyn allan at eraill - y tu hwnt i feysydd traddodiadol academia sy'n ffurfio craidd Cymrodoriaeth y Gymdeithas - yn enwedig mewn diwydiant a meysydd eraill mewn bywyd dinesig, fel y sector gwirfoddol a'r celfyddydau. Mae hyn yn rhywbeth y mae academaïau eraill hefyd yn mynd i'r afael ag ef.



3. Amgylchedd gweithredu'r Gymdeithas Ddysgedig

Dylid ystyried yr adborth uchod gan randdeiliaid ochr yn ochr â nifer o ffactorau amgylcheddol allanol sy'n effeithio ar ein gwaith.

- **Ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid addysg uwch.** Er bod datblygiadau cadarnhaol wedi'u gweld o ran cyllid i fyfyrwyr yng Nghymru (a ddylai olygu bod Cymru'n lle mwy deniadol i recriwtio myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig), ceir ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch trefniadau cyllido ôl-Brexit ar gyfer ymchwil a buddsoddi mewn addysg uwch. Penderfyniadau polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fydd yn ffurfio'r dyfodol, ynghyd â pha effaith ddilynol bynnag a ddaw o ran y cyllid sydd ar gael i'r Gymdeithas Ddysgedig. Rhaid i ni fod yn effro i unrhyw newidiadau yn y gefnogaeth graidd werthfawr a'r gofod swyddfa a ddarperir gan Brifysgol Cymru.
- **Trefniadau datganoli i Gymru.** Wrth i'r Cynulliad Cenedlaethol gyrraedd ugain oed gyda'r trefniadau datganoli'n parhau i aeddfedu, gallai fod cyfleoedd da i'r Gymdeithas Ddysgedig wneud ei marc fel sefydliad cenedlaethol o werth ag iddi gorff cryf o arbenigedd. Gallai fod gwahaniaeth pellach rhwng Cymru a'r DU o ran polisi a chyfraith, a allai esgor ar gyfleoedd i'r Gymdeithas gryfhau ei rôl fel ffynhonnell annibynnol o arbenigedd.
- **Cyllid trydydd sector.** Partneriaid allweddol y Gymdeithas yw'r sefydliadau addysg uwch, felly fel elusen fach mae angen i ni ystyried ein cynlluniau yn erbyn amgylchedd cyllido sy'n gynyddol gyfyngedig a chystadleuol. Bydd angen i ni ddatblygu prosiectau arloesol a phartneriaethau cryf i ddenu'r cyllid sydd ei angen ar y Gymdeithas, ac ymagwedd gytbwys at godi arian o ffynonellau niferus.

4. Cynllunio at y dyfodol

Mae'n amlwg o adborth gan randdeiliaid eu bod yn ystyried y Gymdeithas yn werthfawr a bod iddi rôl unigryw yn nhirwedd addysgol a chymdeithas ddinesig Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn glir fod angen i ni wneud ymdrech cydunol i ehangu ac egluro ein rôl wrth i'r Gymdeithas aeddfedu.

Yn fras, gellir rhannu buddiolwyr gwaith y Gymdeithas yn ddau gategori:

- academyddion mewn sefydliadau addysg uwch, sy'n cael budd o'n Cymrodoriaeth, digwyddiadau, medalau a chyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a chydweithio yng Nghymru ac yn rhyngwladol
- llywodraethau, cyrff cyhoeddus a phrifysgolion, sy'n cael budd o allu'r Gymdeithas i harneisio arbenigedd a chywain barn wybodus ar amrywiaeth eang o bynciau

Rhaid i'r Gymdeithas ofalu'n barhaus ei bod yn gwella ei harlwy i'r buddiolwyr presennol hyn – gan weithio i fodloni'r anghenion maent wedi'u nodi eisoes. Mae angen i ni ehangu apêl y Gymrodoriaeth drwy fod yn fwy amrywiol a chynnig cyfleoedd pellach i ymgysylltu a chefnogi ein Cymrodwr. Rydym ni hefyd yn awyddus i estyn y tu hwnt i'r Gymrodoriaeth a gwneud mwy i ymgysylltu ag ymchwilwyr gyrfa gynnar ac ar ganol eu gyrfa, gan rannu eu llwyddiannau a'u chefnogi gyda chyfleoedd datblygu proffesiynol. Bydd hyn yn helpu Cymru i ddatblygu a chadw ei thalent academiaidd, yn ogystal â chefnogi cynladwyedd y Gymdeithas ei hun drwy feithrin cenedlaethau o Gymrodwr y dyfodol.

Byddwn yn datblygu rôl y Gymdeithas fel llais annibynnol a berchir, fel bod modd i'r llywodraeth a chyrrff eraill gael budd o'n cyfraniadau ar y materion allweddol mae Cymru'n eu hwynebu. Mae profiad yn dangos bod y Gymdeithas yn gallu ymateb yn gyflym ac yn awdurdodol i drafodaethau ac ymgynghoriadau cyfredol, a chaiff y swyddogaeth hon



ei chyfnerthu dros y pum mlynedd nesaf. Byddwn hefyd yn fwy rhagweithiol - gan geisio 'arwain y drafodaeth' mewn meysydd polisi allweddol lle mae gan ein Cymrodryr arbenigedd.

Y tu hwnt i fuddiolwyr cyfredol y Gymdeithas, rydym wedi nodi tri math newydd o fuddiolwyr y byddwn yn awyddus i'w cefnogi:

- y cyhoedd yn ehangach (y tu hwnt i'r byd academiaidd) y gellir eu cyrraedd drwy ddigwyddiadau cyhoeddus a rhaglenni codi ymwybyddiaeth
- athrawon a disgyblion ysgol, a all elwa o'r arbenigedd a'r gefnogaeth y gellir eu cynnig ar draws y disgyblaethau academiaidd
- cyrff trydydd sector, a gaiff gymorth i gyrchu ymchwil ac arbenigedd i gefnogi eu gwaith

Mae angen gwneud mwy o waith i ganfod anghenion y cynulleidfaoedd newydd hyn yn fanylach a'r ffyrdd gorau i'r Gymdeithas eu gwasanaethu. Serch hynny, mae'r strategaeth hon yn amlinellu amrywiaeth o weithgareddau posibl y gellid eu datblygu i gyrraedd y cynulleidfaoedd hyn, yn ogystal â chostau tebygol pob un.

Bydd yn bwysig ein bod yn cyfleu cenhadaeth a nodau'r Gymdeithas yn glir i'r holl fuddiolwyr. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer cynulleidfaoedd newydd na fyddant efallai'n adnabod enw'r Gymdeithas ar unwaith, na'i rôl ddatblygol. Mae angen hefyd i ni wella'r ffordd rydym ni'n monitro ac yn gwerthuso gweithgareddau'r Gymdeithas, er mwyn datblygu sail gref o dystiolaeth ar gyfer agweddau effeithiol ein gwaith yn ogystal â dysgu o brofiad. Bydd hyn yn helpu i wneud y Gymdeithas yn fwy deniadol ac yn haws i gyllidwyr allanol ei chefnogi.

Wrth ddatblygu'r cynllun strategol sy'n dilyn, rydym ni wedi ceisio cydbwysu ymdeimlad o uchelgais gyda realaeth o ran yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr amgylchedd. Tra bo gan y Gymdeithas drefniadau cyllid, llywodraethu a staffio cadarn, mae'r ffactorau allanol a nodwyd uchod (yn enwedig cyllid cyfyngedig ac ansicrwydd gwleidyddol) yn golygu y bydd yn rhaid i ni barhau'n ddarvoudus, a lle bo'n briodol, yn ofalus ynghylch ehangu. Mae'r risgiau ym mhob maes gweithgaredd felly wedi'u hesbonio'n glir.

I grynhoi, mae'r strategaeth bum mlynedd hon yn rhagweld rôl ehangach i Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Erbyn 2023, y bwriad yw y byddwn wedi datblygu'n sefydliad ehangach, mwy effeithiol sy'n cael effaith ar draws y gwahanol sectorau yng Nghymru. Mae'r strategaeth hon yn gam pwysig at weledigaeth tymor hir – bod y Gymdeithas yn dod yn sefydliad cenedlaethol hanfodol, sy'n cyfoethogi gwybodaeth a thrafodaeth gyhoeddus yn ogystal â chryfhau llwyddiannau addysg yng Nghymru ar bob lefel.

Cynllun strategol manwl

<p>Amcan gweithredol</p> <p><i>Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni?</i></p> <p>Daw'r testun o dan bob pennawd o'r Fframwaith Strategol a gytunwyd gan y Cyngor</p>	<p>Allbynnau</p> <p><i>Pa weithgareddau fyddwn ni'n eu cyflwyno i gyflawni'r amcan hwn?</i></p> <p>Gwyrdd = Gweithgareddau cyfredol Melyn = Gweithgareddau ar waith; angen rhagor o ddatblygu Glas = Gweithgareddau newydd posibl</p>	<p>Monitro a gwerthuso</p> <p><i>Sut fyddwn ni'n mesur a yw'n gweithio?</i></p>	<p>Amrywiaeth</p> <p><i>Sut fyddwn ni'n hyrwyddo amrywiaeth drwy'r gweithgareddau hyn?</i></p>	<p>Goblygiadau cyllido/adnoddau</p> <p><i>Pa gyllid neu adnoddau eraill fydd eu hangen?</i></p>	<p>Rheoli risg</p> <p><i>Beth allai rwystro hyn rhag gweithio a beth allwn ni ei wneud i liniaru hyn?</i></p>
<p>1. Hyrwyddo ymchwil</p> <p>Parhau i hyrwyddo ymchwil a'i werth i'r Gymdeithas, pwysu am gyllid digonol a symudiad rhydd i ymchwilwyr, a cheisio dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth, gan gydnabod y bydd hyfforddiant ymchwil a sgiliau'n bwysicach nag erioed yng nghydestun ymadawiad arfaethedig y DU o'r Undeb Ewropeaidd.</p>	<p>a) Cyflwyno digwyddiadau academiaidd ansawdd uchel i hyrwyddo ymchwil arloesol - gan gynnwys o leiaf un digwyddiad partneriaeth bob blwyddyn gyda phob prifysgol yng Nghymru</p> <p>b) Dyfarnu medalau am gyflawniad mewn peirianeg a thechnoleg, rhagoriaeth ymchwil gyrfa gynnar, ymchwil addysg, ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfraniadau rhagorol gan fenywod mewn pynciau STEM</p> <p>c) Gweithio gydag academiâu eraill i bwysu ar y llywodraeth am gyllid digonol a symudiad rhydd i ymchwilwyr yn enwedig yng nghydestun Brexit</p>	<p>Y nifer o ddigwyddiadau; adborth ansoddol ar y digwyddiadau</p> <p>Y nifer / amrywiaeth yr enwebiadau a dderbynnir</p> <p>Llwyddo i ddylanwadu ar bolisiâu llywodraeth Cymru/y DU</p>	<p>Sefydlu targedau ar gyfer cynrychiolaeth amrywiol o siaradwyr y Gymdeithas (o ran rhywedd ac ethnigrwydd yn arbennig)</p> <p>Hyrwyddo enwebiadau medalau'n rhagweithiol i amrywiaeth ehangach o gyrff gan gynnwys cyrff sector preifat/trydydd sector</p> <p>Gweithio i sicrhau cefnogaeth gytbwys i ddisgyblaethau STEM ac AHSS</p>	<p>Parhau â staff a threfniadau cyllido cyfredol y Gymdeithas</p> <p>Parhau â staff a threfniadau cyllido cyfredol y Gymdeithas; gallem ddymuno cynyddu cyllid i dalu am amser staff y Gymdeithas</p> <p>Parhau'r berthynas dda gydag Academiâu; Llywydd/Is-lywydd gweithgar</p>	<p>Perygl eithrio prifysgolion proffil is; angen sicrhau gwaith traws-sefydliadol cryf</p> <p>Byddai nifer fawr o enwebiadau'n golygu mwy o amser – bydd angen cynllunio'r adnodd staff yn ofalus</p> <p>Gallai fod angen rheoli canfyddiad o wrthdaro buddiannau gyda chyllid llywodraeth Cymru i'r Gymdeithas</p>



Amcan gweithredol	Allbynnau	Monitro a gwerthuso	Amrywiaeth	Goblygiadau cyllido/adnoddau	Rheoli risg
	d) Datblygu proffil astudiaethau Cymreig ar draws disgyblaethau a sefydliadau academaidd; ymchwilio sut y gellid cyfoethogi a gwasanaethu ymchwil ym maes Astudiaethau Cymreig yn well gyda chyhoeddiadau	Y mesur o waith rhyngddisgyblaethol a gyflawnir; y nifer o academyddion sy'n rhan o'r gwaith a'r erthyglau / ymchwil a gynhyrchir	Hyrwyddo meysydd astudio heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yng Nghymrodoriaeth a gweithgareddau'r Gymdeithas	Grŵp Astudiaethau Cymreig parhaus; arbenigedd e-gyhoeddi a phanel golygu cyfnodolyn; £2,000-£3,000 y.f. am daliadau cynhyrchu a hawliau	Potensial i lyncu llawer o amser staff – angen sicrhau digon o gefnogaeth gan Gymrodyr / eraill
	e) Lansio cynllun ysgoloriaethau'r Gymdeithas Ddysgedig i gefnogi ymchwil doethurol/ôl-ddoethurol mewn meysydd allweddol (e.e. Astudiaethau Cymreig, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)	Y nifer o geisiadau / ysgoloriaethau a weinyddir yn llwyddiannus	Sefydlu targedau ar gyfer cynrychiolaeth amrywiol ymhlith derbynwyr ysgoloriaethau	Ysgoloriaeth Fulbright yn parhau (£12,000 y.f.); cyllid ar gyfer ysgoloriaethau eraill a chostau craidd y Gymdeithas (gan gynnwys staff newydd) –£50,000-£100,000+ y.f. gan ddibynnu ar strwythurau cost	Ehangu sylweddol ar gylich gorchwyl y Gymdeithas – angen cynllunio gofalus ar AD, cyfathrebu a rheoli'r berthynas â phrifysgolion
	f) Cryfhau cyfleoedd i ymchwilwyr gyrfa gynnar a chanol gyrfa drwy sefydlu Academi i'r rhan hon o'r sector. Gallai gweithgareddau gynnwys cynllun grantiau ar gyfer gweithgareddau a mentoriaethau i annog ymchwilwyr i weithio at Gymrodoriaeth (heb awgrymu bod hyn yn sicr)	Lansio'r Academi'n llwyddiannus; adborth ansoddol ar y cyfleoedd a ddarperir	Mae'r gweithgaredd hwn yn ei hanfod yn hyrwyddo amrywiaeth oed	Amser sefydlu cychwynnol a chostau/staffio parhaus – £20,000-£100,000 y.f. gan ddibynnu ar y raddfa	Gallai fod yn aneffeithol pe bai'r adnoddau'n annigonol; gellid lansio peilot bach i ddechrau, ond gallai hyn niweidio enw da



Amcan gweithredol	Allbynnau	Monitro a gwerthuso	Amrywiaeth	Goblygiadau cyllido/adnoddau	Rheoli risg
	g) Cefnogi cyrff trydydd sector yng Nghymru i fanteisio ar ymchwil ac arbenigedd academiaidd – gan helpu i fynegi'r angen am eu gwaith ac asesu eu heffaith yn fwy effeithiol (efallai drwy wasanaeth llyfrgell a /neu wasanaeth 'buddy')	Sefydlu sianeli cyfathrebu trydydd sector/AU; cefnogi nifer o sefydliadau	Cefnogi cyrff sy'n cyrraedd buddiolwyr amrywiol o ran daearyddiaeth, cefndir ac ethnigrwydd	Amser i ddatblygu perthnasoedd; cyllid prosiectau posibl o £20,000-£50,000 y.f.	Y Gymdeithas yn gymharol anhysbys yn y trydydd sector – bydd angen adeiladu ymddiriedaeth a phroffil
<p>2. Cyfrannu arbenigedd</p> <p>Cyfoethogi ein rôl fel ffynhonnell o gyngor a sylwadau gwybodus i'r llywodraeth, deddfwriaethau ac yn ehangach. Byddwn yn tynnu ar y Gymrodoriaeth a byddwn yn fwy rhagweithiol mewn meysydd y mae gennym arbenigedd ynddynt.</p>	a) Cydlynu ymatebion manwl a gwybodus i ymgynghoriadau cyhoeddus, gan dynnu ar arbenigedd ein Cymrodoriaeth	Y nifer o ymatebion a Chymrodyr sy'n cyfrannu; nodi cyfraniadau'r Gymdeithas mewn adroddiadau	Cynnwys Cymrodyr o amrywiol ddisgyblaethau ac arbenigeddau mewn gwaith ymgynghori/polisi	Parhau â chyllido/staff cyfredol y Gymdeithas, a chynnwys Cymrodyr	Angen rheoli'r risg bod amser staff yn cael ei or-ddefnyddio gan fanion y gwaith hwn
	b) Cyfrannu safbwynt Cymreig i ymgynghoriadau, briffiadau ac ymdrechion lobïo a gydlynir gan academiau eraill yn y DU ac Ewrop	Nodi cyfraniadau'r Gymdeithas a'u defnyddio fel bo'n briodol gan academiau	Cynnwys trawstoriad ehangach o'r Gymrodoriaeth wrth lunio'r ymatebion hyn	Parhau â threfniadau cyllido a staff cyfredol y Gymdeithas, ynghyd â chyswllt y Llywydd/Cymrodyr	Methu cael cyswllt digonol gan Gymrodyr; angen hysbysu Cymrodyr yn gyson am ein gweithgareddau a'n heffaith
	c) 'Arwain y sgwrs' mewn meysydd polisi allweddol – cyflwyno digwyddiadau rhagweithiol, briffiadau arbenigol neu gyd-ddatganiadau bob blwyddyn sy'n cyrraedd y tu hwnt i'r byd academiaidd at wneuthurwyr polisi a dylanwadwyr	Ymgysylltu ac ymateb gwneuthurwyr polisi perthnasol	Gwneud digwyddiadau polisi / briffiadau'n hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosibl	Ar gyfer (c), (d) ac (e): Yn ogystal â defnydd cryfach o Gymrodyr, gallai fod angen amser staff ychwanegol i drefnu digwyddiadau,	Efallai nad oes digon o amser staff i gyflawni; angen cynllunio gofalus i osgoi gorlwytho. Gellid ystyried ei fod yn 'sathru ar draed' WISERD neu eraill; ymgynghori/gweitho gyda'n partneriaid



Amcan gweithredol	Allbynnau	Monitro a gwerthuso	Amrywiaeth	Goblygiadau cyllido/adnoddau	Rheoli risg
	<p>d) Datblygu ein gwaith ar lunio polisi ar sail tystiolaeth, darparu briffiadau a seminarau mewn partneriaeth â sefydliadau academaidd a llywodraethol</p> <p>e) Lansio cynllun 'paru' gan adeiladu ar waith y Gymdeithas Frenhinol a Chymdeithas Frenhinol Caeredin, lle mae academyddion ac Aelodau Cynulliad / ymchwilyr yn treulio amser yn dysgu am eu gwaith ei gilydd a chymhwyso canfyddiadau ymchwil wrth lunio polisi</p>	<p>Y nifer o friffiadau/ seminarau ac adborth ansoddol a dderbynnir</p> <p>Adborth cadarnhaol a chymhwyso dysgu gan academyddion / ymchwilyr</p>	<p>Sicrhau ymgysylltu ar draws amrywiol bortffolios llywodraeth</p> <p>Mynd ati i annog ceisiadau amrywiol i'r cynllun paru, o ran rhywedd, oed ac ati'r ymgeiswyr</p>	<p>briffiadau a'r cynllun paru; gellir canfod rhywfaint drwy arbedion effeithlonrwydd, ond gallai fod angen hyd at £10,000-£25,000 y.f. ychwanegol mewn amser staff Gweler uchod</p>	<p>presennol i ymdrin â hyn</p> <p>Maes newydd sydd angen ystyriaeth ofalus; trafod gyda'r Gymdeithas Frenhinol/RSE cyn datblygu cynlluniau</p>
<p>3. Hybu dysg a thrafodaeth</p> <p>Edrych allan, ar draws Cymru a chymdeithas ddinesig, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan weithio'n gydweithredol a gyda chwaer academaïau fel bo'n briodol. Byddwn yn ysbrydoli cynulleidfaoedd allanol gyda llwyddiannau ein Cymrodoriaeth amrywiol. Byddwn</p>	<p>a) Ysbrydoli cynulleidfaoedd allanol (llywodraeth, rhanddeiliaid addysg, cyrff cyhoeddus ac ati) drwy gyfathrebu rhagoriaeth ein Cymrodoriaeth, gan gynnwys drwy ddefnydd gwell o'r cyfryngau cymdeithasol</p> <p>b) Adeiladu ar ein gwaith allgymorth i ysgolion/colegau – ysbrydoli ymgysylltu mewn addysg uwch (e.e. drwy seminarau, enciliadau, cyfleoedd trafod, darlithoedd) a chynorthwyo athrawon i gysylltu ag arbenigwyr pwnc yn ein Cymrodoriaeth</p>	<p>Y niferoedd a gyhraeddir a'r cysylltiadau newydd a ddatblygir drwy gyfathrebu allanol</p> <p>Y nifer o fyfyrwyr/athrawon a gefnogir; adborth ar effaith gweithgareddau gan fyfyrwyr/athrawon</p>	<p>Sicrhau bod ffocws cyfathrebu ar lwyddiannau ar draws y disgyblaethau</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid lleol gwybodus i dargedu grwpiau myfyrwyr ac athrawon amrywiol ar draws disgyblaethau academaidd gwahanol</p>	<p>Gallai datblygu ein cyfathrebu allanol presennol yn gylchlythyr olygu rhyddhau capasiti staff</p> <p>Angen nodi'r angen yn glir drwy drafod gydag uwch athrawon</p> <p>Yn debygol o fod angen cyllid / staffio ar wahân i lwyddo (£20,000 - £50,000 y.f.); neu</p>	<p>Dim risgiau penodol wedi'u nodi ar gyfer y gweithgaredd hwn</p> <p>Nid yw hwn eto'n faes arbenigol i'r Gymdeithas, felly gallai fod yn anodd denu cyllid; bydd angen casglu data monitro a gwerthuso cryf o weithgareddau, ac ymchwilio'n ofalus i anghenion ysgolion</p>



Amcan gweithredol	Allbynnau	Monitro a gwerthuso	Amrywiaeth	Goblygiadau cyllido/adnoddau	Rheoli risg
hefyd yn datblygu ymgysylltu cyhoeddus ac yn cryfhau effaith ein gwaith, yn enwedig gyda chenedlaethau iau.				gellid partneru gyda Speakers for Schools neu gymdeithasau dysgedig pynciau	
	c) Trefnu/cydllynu digwyddiadau agored, fforymau trafod a symposia rhyngwladol – gan ddod â gwaith Cymrodoriaeth y Gymdeithas (a'r Academi'n ddiweddarach) i sylw cynulleidfa ehangach, a chefnogi trafodaeth gyhoeddus ar faterion allweddol yng Nghymru	Adborth ansoddol ar ddiddordeb / defnyddioldeb digwyddiadau a thrafodaethau	Targedu digwyddiadau at amrywiol gynulleidfaoedd mewn lleoliadau gwahanol	Gallai fod angen amser staff ychwanegol ar gyfer nifer fawr o ddigwyddiadau (£10,000 y.f.?), ond gellid partneru gydag eraill (e.e. y Cyngor Prydeinig, sefydliadau polisi)	Potensial ar gyfer ymgysyllu cyhoeddus annigonol a 'sathru ar draed' prifysgolion; mae angen ystyried partneriaeth a chyfathrebu yn ofalus
	d) Cyflenwi gweithgareddau a chyfleoedd gwirfoddoli sy'n datblygu ymwybyddiaeth y cyhoedd o lwyddiannau Cymreig mewn ymchwil ac arloesi, a'u perthnasedd i'n bywydau heddiw	Y nifer o bobl sy'n ymgysylltu; adborth ansoddol wedi'i dderbyn	Cynnwys targedau amrywiaeth cynulleidfa yng nghynllunio cychwynnol y prosiectau	Cyllid ar gyfer staff a gweithgareddau, gallai fod yn £10,000-£50,000 y.f.	Maes newydd i'r Gymdeithas; rhaid cynllunio'n ofalus a threulio amser yn dysgu am gyfleoedd/risgiau gwaith treftadaeth
e) Trefnu un neu ragor o ddigwyddiadau dengmlwyddiant y Gymdeithas (yn 2020), datblygu diddordeb yn ein gwaith yn gyffredinol, ac efallai cydweithio gydag academiâu eraill y DU i adfyfrio ar rôl academiâu/cymdeithasau	Niferoedd mynychwyr ac adborth; cynyddu ebost/dilynwyr cyfryngau cymdeithasol	Marchnata digwyddiadau i gynulleidfaoedd y tu hwnt i'r rhai arferol	Angen cefnogaeth gan academiâu eraill, ond gellid ei gyflawni gyda staff ac adnoddau cyfredol	Gallai digwyddiadau fod yn rhy 'fewnblyg' i fod yn ddiddorol; gweithio'n agos gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen ddefnydd	



Amcan gweithredol	Allbynnau	Monitro a gwerthuso	Amrywiaeth	Goblygiadau cyllido/adnoddau	Rheoli risg
	dysgedig yn gyffredinol. Cynnwys o leiaf un digwyddiad a fyddai'n denu sylw'r cyfryngau.				
4. Datblygu'r Gymrodoriaeth Gweithio i gofleidio diffiniad ehangach o 'dysgedig' er mwyn i amrywiaeth ehangach o bobl gael budd o'n gwaith	a) Adeiladu ar ymwneud cyfredol Cymrodyr yn ein gweithgareddau ar draws pob disgyblaeth academiaidd – gan ddyblu'r nifer o Gymrodyr sy'n cyfrannu'n weithredol at waith y Gymdeithas	Meincnodi Cymrodyr ar waith, gydag adroddiadau blynyddol ar gynnydd	Gweithio i sicrhau bod Cymrodyr ar draws y disgyblaethau'n cymryd rhan (angen cydbwysedd o weithgareddau ar draws disgyblaethau)	Gellid ei gyflawni gyda staff ac adnoddau cyfredol	Potensial fod Cymrodyr yn teimlo eu bod yn cael eu gofyn i wneud gormod; mae angen sicrhau bod cyfrannu'n fuddiol i bawb
	b) Gweithio'n agosach gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a thrydydd sector i annog ethol amrywiaeth ehangach o Gymrodyr anacaemaidd teilwng (gan adeiladu ar gysylltiadau cyfredol o fewn y sectorau yn ogystal â datblygu cysylltiadau newydd)	Y nifer o enwebiadau ansawdd uchel a dderbynnir a phenodi Cymrodyr newydd o wahanol sectorau	Sector cyhoeddus a thrydydd sector eisoes yn amrywiol o ran oed / rhywedd felly'n fwy tebygol o gyfrannu i'r amcanion hyn	Gellid cyflawni (b)/(c)/ (f) drwy ailgyfeirio adnodd staff presennol ond byddai'n elwa o fwy o adnoddau – £10,000-£15,000 y.f. Gallai (b) hefyd fod angen categorïau a phwyllgorau craffu ychwanegol os daw llawer o enwebiadau i law	Gallai rhai Cymrodyr ystyried ein bod yn 'glastwreiddio'r cysyniad o ragoriaeth; rhaid cadw a dangos prosesau asesu cadarn
	c) Cryfhau rôl y Cymrodyr Er Anrhydedd i ddatblygu proffil cyhoeddus ac enw da'r Gymdeithas	Y lefel o ymgysylltu gan Gymrodyr Er Anrhydedd yng ngweithgareddau'r Gymdeithas	Annog enwebiadau amrywiol yn yr un ffordd ag ar gyfer Cymrodoriaethau arferol	Gellid ei gyflawni gyda staff ac adnoddau cyfredol	Dim risgiau penodol wedi'u nodi ar gyfer y gweithgaredd hwn



Amcan gweithredol	Allbynnau	Monitro a gwerthuso	Amrywiaeth	Goblygiadau cyllido/adnoddau	Rheoli risg
	d) Partneriaethau gyda chyrff eraill e.e. ar ymgysylltu BME neu ymgysylltu ag academyddion gyrfa gynnar o ran ymchwil; hefyd ystyried ceisio achrediad am ein gwaith i hyrwyddo amrywiaeth	Effaith y partneriaethau hyn ar weithgareddau/partneriaethau'r Gymdeithas	Gweithgaredd wedi'i anelu'n benodol at ddatblygu amrywiaeth y Gymrodoriaeth	Gweler nodyn uchod dan (b)	Gellid cyhuddo o fod yn waith tocenistaidd; rhaid sicrhau bod pob gweithgaredd o'r fath yn wirioneddol helpu i ddatblygu cenhadaeth / strategaeth y Gymdeithas